



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Dyddiad Dyroddi: 31/07/2020

| Rhif Safon | Dosbarth o Safon | Safon | Diwrnod Gosod |
|------------|-----------------------|--|---------------|
| 1 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 2 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn (“A”) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw’n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi— (a) cadw cofnod o ddymuniad A, (b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 3 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy’ n aelodau o’r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i’r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os— (a) yw’r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yndymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o’u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny; | 31/01/2021 |

| | | | |
|---|-----------------------|---|------------|
| | | (b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny. | |
| 4 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon yr unohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. | 31/01/2021 |
| 5 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebuâ'r person hwnnw. | 31/01/2021 |
| 6 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | 31/01/2021 |
| 7 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddatgan— (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. | 31/01/2021 |
| 8 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 9 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|--|------------|
| | | ar gael. | |
| 10 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gandrosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny' n angenrheidiol).</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 10 mewn perthynas â galwadau sydd yn ymwneud â chwynion yn erbyn darparwyr gwasanaeth neu gynghorwyr o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 neu Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, neu ddeddfwriaeth olynol.</p> | 31/01/2021 |
| 11 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—</p> <p>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw' n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a</p> <p>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwncpenodol hwnnw.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 11 ymhob amgylchiad ac eithrio mewn perthynas â galwadau sydd yn ymwneud â chwynion yn erbyn darparwyr gwasanaeth neu gynghorwyr o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 neu Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, neu ddeddfwriaeth olynol.</p> | 31/01/2021 |
| 12 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|---|------------|
| | | wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| 13 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. | 31/01/2021 |
| 14 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 15 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. | 31/01/2021 |
| 16 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 17 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. | 31/01/2021 |
| 18 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw' n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd (os yw'n angenrheidiol drwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg). | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|--|------------|
| | | Rhaid cydymffurfio â safon 18 mewn perthynas â galwadau sydd yn ymwneud â chwynion yn erbyn darparwyr gwasanaeth neu gynghorwyr o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 neu Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, neu ddeddfwriaeth olynol. | |
| 19 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw' n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg—</p> <p>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw' n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a</p> <p>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar ypwnc penodol hwnnw.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 19 ymhob amgylchiad ac eithrio mewn perthynas â galwadau sydd yn ymwneud â chwynion yn erbyn darparwyr gwasanaeth neu gynghorwyr o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 neu Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, neu ddeddfwriaeth olynol.</p> | 31/01/2021 |
| 20 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person. | 31/01/2021 |
| 21 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyach yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|-----------------------|---|------------|
| | | ymlaen yn Gymraeg. | |
| 22 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 24 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw. | 31/01/2021 |
| 24A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu). | 31/01/2021 |
| 25 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw' n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | 31/01/2021 |
| 25A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | 31/01/2021 |
| 25D | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu). | 31/01/2021 |
| 26 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|---|------------|
| | | <p>Gymraeg yn y cyfarfod.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 26 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo'r cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer cynulleidfa sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru yn unig. | |
| 27 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 27 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo'r gwahoddiadau yn cael eu hanfon at gynulleidfa sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru yn unig. | 31/01/2021 |
| 28 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy' n agored i'r cyhoedd rhaid ichi—</p> <p>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 28 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo'r holl bersonau a wahoddir i siarad yn y cyfarfod wedi eu lleoli y tu allan i Gymru. | 31/01/2021 |
| 29 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg—</p> | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|---|------------|
| | | <p>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 29 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo'r cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer cynulleidfa sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru yn unig. | |
| 30 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 30 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo'r cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer cynulleidfa sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru yn unig. | 31/01/2021 |
| 31 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoedduswydd i'r digwyddiad).</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 31 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo'r digwyddiad yn cael ei drefnu ar gyfer cynulleidfa sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru yn unig | 31/01/2021 |
| 32 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n</p> | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|---|------------|
| | | <p>bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 32 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo'r digwyddiad yn cael ei drefnu ar gyfer cynulleidfa sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru yn unig. | |
| 33 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 33 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo'r deunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yn cael ei lunio at ddiben cyfarfod neu ddigwyddiad ar gyfer cynulleidfa sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru yn unig. | 31/01/2021 |
| 34 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 34 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fyddwch yn arddangos deunydd mewn cyfarfod neu ddigwyddiad ar gyfer cynulleidfa sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru yn unig. | 31/01/2021 |
| 36 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg.</p> | 31/01/2021 |
| 37 | Cyflenwi Gwasanaethau | <p>Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn rhaid ichi eu llunio yn</p> | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|--|------------|
| | | <p>Gymraeg—</p> <p>(a) agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfodydd Bwrdd neu Gyngor;</p> <p>(b) agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 37 ymhob amgylchiad, ac eithrio: (b) pan fo'r agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfod neu gynhadledd ar gyfer cynulleidfa sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru yn unig.</p> | |
| 39 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn yr ydych yn ei lunio neu ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd gael ei lunio neu ei llunio yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 40 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg— | 31/01/2021 |
| | | <p>(a) polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol;</p> <p>(b) canllawiau a chodau ymarfer;</p> <p>(c) papurau ymgynghori.</p> | |
| 41 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw reolau yr ydych yn eu cyhoeddi sy' n gymwys i'r cyhoedd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 42 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhyddhau unrhyw ddatganiad i'r wasg, rhaid ichi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid ichi ryddhau'r ddwy fersiwnar yr un pryd. | 31/01/2021 |
| 43 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen sydd ar gael i'r cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg— | 31/01/2021 |
| | | (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, | |

| | | | |
|-----|-----------------------|---|------------|
| | | neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. | |
| 44 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 31/01/2021 |
| 45 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 46 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 46A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 46B | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy' n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen). | 31/01/2021 |
| 47 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 48 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau— | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|---|------------|
| | | (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan. | |
| 51 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy' n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | 31/01/2021 |
| 52 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 53 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. | 31/01/2021 |
| 54 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 31/01/2021 |
| 55 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | 31/01/2021 |
| 57 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy' n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 31/01/2021 |
| 58 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|---|------------|
| | | gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy' n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | |
| 59 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 31/01/2021 |
| 60 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. | 31/01/2021 |
| 63 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. | 31/01/2021 |
| 64 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy' n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny. | 31/01/2021 |
| 65 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw hysbysiad yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | 31/01/2021 |
| 66 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad sy' ncynnwys y testun Cymraeg yn ogysta l â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 31/01/2021 |
| 72 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | 31/01/2021 |
| 73 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|-----------------------|---|------------|
| | | ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. | |
| 73A | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi beidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau). | 31/01/2021 |
| 75 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi— (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 31/01/2021 |
| 76 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 77 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 78 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy' n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 79 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|-----------------------|--|------------|
| | | Saesneg. | |
| 80 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 84 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu' n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu' n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 31/01/2021 |
| 85 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu' n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 31/01/2021 |
| 86 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu' n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 31/01/2021 |
| 87 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisiobarn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu' n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|---------------|--|------------|
| | | (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| 88 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 31/01/2021 |
| 89 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 31/01/2021 |
| 91 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 31/01/2021 |
| 92 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 31/01/2021 |

| | | | |
|----|---------------|---|------------|
| 93 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 31/01/2021 |
| 94 | Gweithredu | Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd. | 01/04/2021 |
| 95 | Gweithredu | Pan fyddwch yncynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 96 | Gweithredu | Rhaid ichi— (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 97 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 98 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|------------|--|------------|
| | | fath iddo yn Gymraeg. | |
| 99 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu' n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 100 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi— (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw' n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg. | 01/04/2022 |
| 101 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 102 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 103 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 104 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 105 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 106 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 107 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 108 | Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff— | 31/01/2021 |

| | | | |
|------|------------|--|------------|
| | | (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg. | |
| 108A | Gweithredu | Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff— (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. | 31/01/2021 |
| 110 | Gweithredu | Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu' n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi— (a) gofyn i'r aelod o staff a yw' n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 31/01/2021 |
| 111 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff— (a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn | 31/01/2021 |

| | | | |
|------|------------|---|------------|
| | | â'r gŵyn. | |
| 112 | Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol. | 31/01/2021 |
| 112A | Gweithredu | Rhaid ichi— (a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy' n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a (b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno. | 31/01/2021 |
| 114 | Gweithredu | Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi— (a) gofyn i'r aelod o staff a yw' n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw' nofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 31/01/2021 |
| 115 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff— (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg, (b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu. | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|------------|--|------------|
| 116 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael). | 31/01/2021 |
| 117 | Gweithredu | <p>Rhaid ichi sicrhau—</p> <p>(a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 117 mewn perthynas â thudalennau ar eich mewnrwyd sy'n ymwneud â'r materion o fewn y safonau gweithredu canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ defnyddio'r Gymraeg o fewn eich gweinyddiaeth fewnol; ○ cwynion a wneir gan staff; ○ disgyblu staff; ○ meithrin sgiliau drwy gynllunio a hyfforddi'ch gweithlu; a ○ recriwtio ac apwyntio. | 31/07/2021 |
| 118 | Gweithredu | <p>Rhaid ichi sicrhau—</p> <p>(a) bod testun hafan eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnrwyd (neu, pan fo'n berthnasol, bod hafan Gymraeg eich mewnrwyd) yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnrwyd.</p> | 31/07/2021 |
| 120 | Gweithredu | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y | 31/07/2021 |

| | | | |
|-----|------------|--|------------|
| | | dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | |
| 121 | Gweithredu | Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg. | 31/07/2021 |
| 122 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnwyd yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â safon 122 mewn perthynas â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ unrhyw dudalen neu hafan ar eich mewnwyd sydd ar gael yn Gymraeg yn unol â safonau 117 ac/neu 118; ○ unrhyw dudalen a neilltuir a chynhelir ar eich mewnwyd yn unol â safon 121. | 31/07/2021 |
| 123 | Gweithredu | Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion. | 31/01/2021 |
| 124 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg— (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch. | 31/07/2021 |
| 125 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn— (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu. | 31/07/2021 |
| 126 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith— | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|------------|--|------------|
| | | (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy' n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ardddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. | |
| 127 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. | 31/01/2021 |
| 128 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu— (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru); (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | 31/07/2021 |
| 129 | Gweithredu | Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhano broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 130 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e -bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. | 31/01/2021 |
| 131 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost. | 31/01/2021 |
| 132 | Gweithredu | Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys— | 31/01/2021 |

| | | | |
|------|------------|--|------------|
| | | <p>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;</p> <p>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;</p> <p>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p> | |
| 132A | Gweithredu | <p>Os byddwch wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi—</p> <p>(a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a</p> <p>(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.</p> | 31/01/2021 |
| 133 | Gweithredu | <p>Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.</p> | 31/01/2021 |
| 133A | Gweithredu | <p>Os byddwch yn cyhoeddi—</p> <p>(a) ffurflenni cais am swyddi;</p> <p>(b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;</p> <p>(c) gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;</p> <p>(ch) swydd-ddisgrifiadau;</p> <p>rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.</p> | 31/01/2021 |
| 133B | Gweithredu | <p>Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch</p> | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|------------|--|------------|
| | | penderfyniadau). | |
| 135 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi— (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw). | 31/01/2021 |
| 136 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg. | 31/01/2021 |
| 137 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 31/01/2021 |
| 138 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy' n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 31/01/2021 |
| 139 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|----------------|---|------------|
| 141 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy' n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau. | 31/01/2021 |
| 142 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 31/01/2021 |
| 143 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio). | 31/01/2021 |
| 144 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 31/01/2021 |
| 145 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 123), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny. | 31/01/2021 |
| 146 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o— (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (yn unol â safon 124), a (b) os darparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 124, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs. | 31/01/2021 |
| 147 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 132) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag. | 31/01/2021 |
| 148 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|------------------------------|--|------------|
| | | <p>o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 132) fel swyddi sy' n gofyn—</p> <p>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;</p> <p>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;</p> <p>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p> | |
| 149 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth | <p>Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy' n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p> | 31/01/2021 |
| 150 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth | <p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—</p> <p>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p> <p>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p> | 31/01/2021 |
| 151 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth | <p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer—</p> <p>(i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi</p> | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|------------------------------|--|------------|
| | | <p>gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p> | |
| 152 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth | <p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p> | 31/01/2021 |
| 153 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth | <p>Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy' n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|------------------------------|---|------------|
| 154 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy' n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydycho dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 31/01/2021 |
| 155 | Atodol - Llundio Polisi | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy' n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 31/01/2021 |
| 156 | Atodol - Llundio Polisi | Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 31/01/2021 |
| 157 | Atodol - Llundio Polisi | Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch | 31/01/2021 |

| | | | |
|-----|--------------------------|---|------------|
| | | swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 158 | Atodol - Llundain Polisi | <p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p> | 31/01/2021 |
| 159 | Atodol - Llundain Polisi | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy' n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 31/01/2021 |
| 160 | Atodol - Llundain Polisi | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy' n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 31/01/2021 |
| 161 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy' n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— | 31/01/2021 |
| | | (a) ar eich gwefan, a | |

| | | | |
|-----|---------------------|--|------------|
| | | (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy' n agored i'r cyhoedd. | |
| 162 | Atodol - Gweithredu | <p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—</p> <p>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p> <p>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrawd.</p> | 31/01/2021 |
| 163 | Atodol - Gweithredu | <p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer—</p> <p>(i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrawd.</p> | 31/01/2021 |
| 164 | Atodol - Gweithredu | <p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—</p> | 31/01/2021 |

| | | | |
|--|--|--|--|
| | | <p>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 145);</p> <p>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 146);</p> <p>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 146);</p> <p>(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy' n gofyn—</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol,</p> <p>(ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 148);</p> <p>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> | |
|--|--|--|--|

| | | | |
|-----|-------------------------|---|------------|
| | | (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy' n agored i'r cyhoedd. | |
| 165 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy' n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 31/01/2021 |
| 166 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy' n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 31/01/2021 |
| 167 | Atodol - Cadw Cofnodion | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy' n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 31/01/2021 |
| 168 | Atodol - Cadw Cofnodion | Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny. | 31/01/2021 |



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 31/07/2020
[Amrywiwyd ar 01/07/2021]